**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Rhagfyr 2016**

## DYLETSWYDD STATUDOL I YMATEB I LIFOGYDD AC ARGYFYNGAU ERAILL YN YMWNEUD Â DŴR

**Adroddiad gan Gary Brandrick, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnig gan Lywodraeth Cymru i osod dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Tân ac Achub (ATA) i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr, a chyflwyno ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad er mwyn ei gymeradwyo.

## Cefndir

2 Fel ar y ddau Awdurdod arall yng Nghymru, mae yna ddyletswyddau statudol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC), dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, i wneud darpariaeth ar gyfer, ac ymateb i danau (adran 7 o'r Ddeddf) a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (adran 8 o'r Ddeddf).

3 Nid oes unrhyw ddyletswydd statudol i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr dan ddeddf 2004, ond dan adran 11 o'r Ddeddf, mae gan yr ATA bŵer i ddefnyddio ei adnoddau i ymateb i 'bosibiliadau eraill'.

4 Mae adran 9 o Ddeddf 2004 yn grymuso Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau ychwanegol sy'n ymwneud ag argyfyngau ar ATAau drwy orchymyn.

5 Cafodd y pŵer hwn ei arfer o'r blaen wrth wneud Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007, a oedd yn gosod dyletswyddau ar ATAau i ymdrin ag argyfyngau'n ymwneud ag adeiladau wedi dymchwel, trenau, tramiau ac awyrennau yn ogystal â gorlifiadau cemegol a sylweddau eraill.

6 Bydd yr Aelodau'n cofio bod yr Awdurdod wedi ystyried rhoi'r gorau i ymateb i lifogydd fel rhan o'i opsiynau mewn perthynas â'r gyllideb yn Rhagfyr 2014, ond dewisodd barhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn oherwydd y perygl a'r digwyddiadau difrifol yn ymwneud â llifogydd yn Llanelwy ac ardal Gorllewin y Rhyl.

7 Mae'r cyfarpar arbenigol a hyfforddiant sydd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill sy'n ymwneud â thân wedi cael eu darparu drwy ddefnyddio ei gyllidebau ei hun a thrwy gymorth, ar ffurf arian grant, gan Lywodraeth Cymru a DEFRA (yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

## Gwybodaeth

8 Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd statudol ar yr Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr.

9 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig mynd ati eto i ddefnyddio ei bŵer dan adran 9 o Ddeddf 2004 i ddiwygio Gorchymyn 2007 i gynnwys y ddyletswydd i wneud darpariaeth:

(a) ar gyfer achub pobl, neu eu hamddiffyn rhag niwed difrifol os oes llifogydd yn ei ardal, a
(b) ar gyfer achub pobl o ddŵr mewndirol yn ei ardal, lle mae'r sefyllfa'n debygol o achosi i un neu fwy o unigolion i farw, cael eu hanafu'n ddifrifol neu fynd yn ddifrifol wael.

10 Yn ogystal â darparu ymateb i'r cwestiynau a osodwyd o fewn yr ymgynghoriad (gweler atodiad 1), gwneir sylw ynglŷn â'r costau ychwanegol a ddaw i'r Awdurdod gyda'r ddyletswydd statudol hon.

## Goblygiadau Ariannol

11 Fel gwasanaeth gwledig yn bennaf, a'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd yn rhai ar gael yn ôl y galw, gall digwyddiadau mawr ac estynedig arwain at gostau ychwanegol sylweddol i'r Awdurdod. Fe wnaeth y llifogydd yn Llanelwy er enghraifft gostio £31k yn ychwanegol mewn cyflogau.

12 Oherwydd natur arbenigol y gweithgareddau, gan gynnwys gweithredu cychod, y gost refeniw fwyaf yw hyfforddiant, sydd tua £130k. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant cychwynnol, gloywi ac ailachredu.

13 Nid oes disgwyl y bydd angen prynu eitemau â gwerth mawr, megis cychod a cherbydau sydd angen gwariant cyfalaf, o fewn 10 mlynedd. Bydd angen cael rhai cyfarpar arbenigol a nwyddau traul bob blwyddyn, am gost o £15k.

14 Mae yna gostau refeniw ychwanegol o ryw £10k y flwyddyn ar gyfer cynnal a chadw a gwasanaethu cyfarpar.

15 Mae'r ymateb yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddechrau ar sgwrs fanwl gyda'r ATAau am y mater o ariannu cyn gwneud unrhyw benderfyniad ffurfiol ynghylch y cynnig.

**Argymhellion**

16 Bod yr aelodau'n:

(i) nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad;

(ii) cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad sydd yn atodiad 1.

# Ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno dyletswydd statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub (FRAs) yng Nghymru i ymateb i argyfyngau llifogydd ac argyfyngau eraill sy'n gysylltiedig â dŵr

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ac unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â phob agwedd ar y ddogfen ymgynghori; yn arbennig, croesewir sylwadau ar y cwestiynau allweddol 1-9 a restrir isod.

Dylech ddychwelyd y ffurflen hon i Lywodraeth Cymru erbyn 22 Rhagfyr 2016 fan bellaf.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i:

fire@wales.gsi.gov.uk

| **Ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno dyletswydd statudol ar FRAs yng Nghymru i ymateb i argyfyngau llifogydd ac argyfyngau eraill sy'n gysylltiedig â dŵr** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | 8 Rhagfyr 2016 | |
| **Enw** | Gary Brandrick | |
| **Sefydliad** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | |
| **Cyfeiriad** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ | |
| **Cyfeiriad e-bost** | Gary.brandrick@nwales-fireservice.org.uk | |
| **Ffôn** | 01745 535254 | |
| **Math** *(dewiswch un o'r canlynol)* | Unigolyn | |
| | Busnes | |
| | Awdurdod Lleol | |
| | Asiantaeth y Llywodraeth/corff sector cyhoeddus arall | **X** |

| | | |
|---|---|---|
| | Corff proffesiynol/grŵp â buddiant | |
| | Sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, grŵp gwirfoddol, grŵp hunangymorth, cwmni cydweithredol, menter, grŵp crefyddol, sefydliad dielw) | |
| | Grŵp arall nad yw wedi'i restru uchod | |

| | |
|---|---|
| **C1.** | Beth yw eich barn chi am y diffiniad arfaethedig o ddyfroedd mewndirol yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn drafft? |

**Sylwadau:**

Rydym yn cytuno ar y cyfan â'r diffiniad bras a ddefnyddir, ond o ran y dyfroedd llonydd byddem yn ystyried y dylid cynnwys pyllau hefyd oherwydd mae'n anodd canfod a defnyddio diffiniad clir o'r adeg pryd y mae pwll yn troi'n llyn.

Byddem hefyd yn ystyried bod yna broblemau gyda defnyddio'r disgrifiad mewn perthynas ag afonydd llanw ac aberoedd, ac felly byddem yn cytuno gyda'r anawsterau sy'n gysylltiedig â defnyddio marc distyll cymedrig fel torbwynt.

Mae hyn am y rhesymau a welir yn yr enghreifftiau a roddir yn y ddogfen ymgynghori a hefyd o ran ei gymhwyso i afonydd wrth iddynt lifo i mewn i'r tir lle gallai'r marc distyll cymedrig olygu'n dechnegol nad yw'r ATA yn ymateb o gwbl i 'ddŵr mewndirol'.

Byddem yn cytuno bod y cyfrifoldeb am ddiogelwch (ac achub pan fo hynny'n briodol) pobl sy'n defnyddio cyfleusterau ar gyfer hamdden ar y dŵr a chyfleusterau hamdden, yn gorwedd gyda'r asiantaeth neu'r gweithredwyr sy'n gyfrifol am y cyfleuster hwnnw yn y lle cyntaf.

Byddem yn gofyn y dylai unrhyw ddiffiniadau a ddefnyddir fod yn gyson er mwyn cyd-fynd â'r hyn a ddefnyddir mewn sefydliadau a dogfennau eraill megis Flood Rescue Concept of Operations DEFRA (2010 diwygiwyd 2011).

| **C2.** | A oes gennych chi unrhyw gynigion amgen ar gyfer diffiniad o 'ddyfroedd mewndirol'? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Oes** | | **Nac oes** | x |

**Sylwadau cefnogol:**

Mae'r diffiniad yn dderbyniol (yn ddibynnol ar ein sylwadau i gwestiwn 1 uchod) ond bydd angen pennu'r cyfyngiadau mewn perthynas ag amgylchiadau llanw ac aberoedd.

| **C3.** | A oes gennych chi unrhyw farn ar y cynnig i gyfyngu ar y ddyletswydd i argyfyngau sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol, boed hynny trwy ddod i gysylltiad uniongyrchol â dŵr neu oherwydd difrod arall y gallai llifogydd ei achosi? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Oes** | X | **Nac oes** | |

**Sylwadau cefnogol:**

Rydym yn cytuno â'r cynnig, ac yn hollbwysig byddem yn ystyried bod y ddyletswydd i ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llifogydd sy'n bygwth y seilwaith hanfodol yn un angenrheidiol oherwydd y canlyniadau anuniongyrchol difrifol posibl.

Mae'r ymateb rhagweithiol i fygythiadau i'r seilwaith hanfodol hefyd o bwys o ran dylanwadu ar y cam adfer mewn digwyddiadau o'r fath.

Dylai'r disgresiwn i ddefnyddio pwerau dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, sef mynd at ddigwyddiadau eraill sy'n ymwneud â llifogydd, fel y mae'r adnoddau'n caniatáu, ond sydd heb fod o fewn y ddyletswydd, barhau gyda'r ATAau (fel y mae pethau nawr). Dylai'r esemptiadau o'r ddyletswydd benodol, fel y rhestrir yn yr ymgynghoriad, sef anifeiliaid anwes, da byw neu eiddo (ac eithrio eiddo sy'n gysylltiedig â'r seilwaith hanfodol) gael eu rhestru yn y gorchymyn er mwyn darparu eglurder llwyr i'r ATAau, asiantaethau eraill a'r cyhoedd.

| C4. | Ydych chi'n credu y dylai dyletswydd i 'wneud darpariaeth' ar gyfer achub o lifogydd ac o ddŵr mewndirol adlewyrchu'r ddyletswydd sydd eisoes ar waith i ymateb i danau a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **X** | **Nac ydw** | |

**Sylwadau cefnogol**:

Byddem yn cytuno â'r darpariaethau a restrir ym mharagraff 26 (fel yn Erthygl 4 o Orchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007.

Byddem yn dweud er hynny bod angen bodloni'n llwyr y gofynion ariannol o gyflawni'r darpariaethau er mwyn gwneud hynny. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ATAau gyllideb ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau statudol fel y cynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Fel gwasanaeth 'ar gael yn ôl y galw' yn bennaf, fe fydd yna gostau'n gysylltiedig â mynd ati i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill sy'n ymwneud â dŵr. Mewn digwyddiadau mawr ac eang neu ddigwyddiadau hirfaith, gall y costau hyn fod yn sylweddol. Mae digwyddiadau o'r fath i'w cael yn amlach ac mae'r geiriau 'na welwyd mo'i debyg o'r blaen' yn cael eu defnyddio'n amlach gan y Llywodraeth a'r cyfryngau i ddisgrifio natur a/neu effaith y digwyddiad. Yn ôl y rhagolygon, bydd hyn yn digwydd eto ac bydd digwyddiadau'n fwyfwy difrifol yn y dyfodol ac maen angen ystyried y sefyllfa ar gyfer cyllido'r ATAau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Er mwyn darparu, cynnal a chadw a phrynu'r cyfarpar angenrheidiol, bydd angen gofyniad cyllidebol sy'n uwch na'r hyn a ddarperir i'r ATAau ar hyn o bryd. Felly hefyd, i'r graddau y bo modd yn ymarferol, bydd sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff sy'n gysylltiedig ag ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llifogydd ac argyfyngau eraill sy'n ymwneud â dŵr, hyfforddiant risg-gritigol ar ddiogelwch yn fwy na'r ddarpariaeth gyllidebol graidd bresennol.

Byddem yn gweld bod rôl asiantaethau eraill mewn agweddau megis rhagweld llifogydd, codi ymwybyddiaeth, canllawiau a chyngor ar lifogydd yn parhau gyda'r asiantaethau eraill gan bod ganddynt gyfarpar, hyfforddiant a profiad gwell yn y meysydd hyn.

Byddem yn gweld yr ATA yn parhau yn ei rôl allweddol yn paratoi ar gyfer argyfyngau o'r fath, a hynny yn fewnol a gydag asiantaethau eraill.

| **C5.** | Ydych chi'n cytuno nad oes angen gosod dyletswydd ar FRAs i ymateb i lifogydd ac argyfyngau achub o ddŵr ar draws ffiniau FRA fel yr amlinellir yn Erthygl 5 o Orchymyn 2007? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **x** | **Nac ydw** | |

**Sylwadau cefnogol:**

Gan na fyddai rhai gwasanaethau cyfagos yn agored o gwbl ar hyn o bryd i ddyletswydd statudol i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr, ac felly nad oes dyletswydd arnynt i ymateb dros ffiniau, byddem yn cytuno â pheidio â gosod dyletswydd ar yr ATAau yng Nghymru.

Credwn bod y trefniadau presennol, sydd yn eu lle yn genedlaethol ar gyfer datgan a rhyddhau adnoddau i lifogydd a digwyddiadau eraill yn ymwneud â dŵr yn ffiniau ATAau eraill, yn darparu'n ddigonol ar gyfer hyn nawr.

| **C6.** | Ydych chi'n cytuno na ddylem gynnwys dyletswydd i arwain neu gydgysylltu'r ymateb amlasiantaethol i lifogydd neu achosion o achub o ddŵr? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | | **Nac ydw** | **x** |

**Sylwadau cefnogol:**

Rydym yn cytuno, ond rydym yn ystyried bod yr ATA o'i brofiad o ddelio â digwyddiadau mawr a hirfaith (tân a llifogydd) a'i adnoddau o ran gorchymyn a rheoli mewn sefyllfa well na rhai sefydliadau ymatebol i arwain a chydlynu elfennau o'r ymateb amlasiantaethol a'r cam achub mewn digwyddiadau.

Byddem yn ceisio cytuno ar hyn o fewn egwyddorion JESIP mewn rhag-gynllunio amlasiantaethol ar gyfer argyfyngau o fewn strwythurau sy'n bodoli eisoes, megis y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a grŵp achub o ddŵr a llifogydd Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys (JESG). Byddem yn gofyn bod Llywodraeth Cymru, drwy ei chysylltiad a'i hymwneud ag asiantaethau eraill, yn cefnogi hyn.

| **C7.** | A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Gorchymyn drafft? |
|---|---|

**Sylwadau:**

Mae angen i Erthygl 3A o'r gorchymyn adlewyrchu beth sydd heb ei gynnwys yn y ddyletswydd i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr, sef achub anifeiliaid anwes, da byw ac eiddo. Hefyd, bydd angen i Erthygl 3A gynnwys bod y ddyletswydd ar gyfer y gweithgareddau a restrir yn erthygl 2(2) o orchymyn 2007 (i'w ddiwygio'n rhannol gan orchymyn diwygio 2017), sy'n cyfeirio at gymryd camau i atal neu gyfyngu ar niwed difrifol i'r amgylchedd, yn berthnasol i'r ATA wrth ymateb i'r dyletswyddau sydd yn Erthygl 3A.

Byddem yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oes gan yr ATA hwn y gallu i chwilio ac achub dan yr wyneb. Byddai hyn yn gofyn am ragor o gyfarpar arbenigol a hyfforddiant helaeth, gan gynyddu rhagor ar y gofynion ariannol ar yr ATA.

Bydd angen i Erthygl 5 gynnwys y ffaith nad yw'n berthnasol i ddyletswyddau statudol dan Erthygl 3A

Mae'n bwysig fod y rhain yn cael eu pennu o fewn y gorchymyn er mwyn cynorthwyo'r ATAau i gynllunio ar gyfer digwyddiadau ac ymdrin â nhw ac ar gyfer rheoli disgwyliadau asiantaethau eraill a'r cyhoedd yn ehangach.

| **C8.** | Ni chredwn fod y polisi hwn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg na'i fod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac ni chredwn y gallai gael ei **ail**-lunio neu ei ddiwygio i gael effeithiau cadarnhaol**.** Os ydych chi'n anghytuno, **byddem** yn croesawu'ch sylwadau ar y mater hwn. |
|---|---|

**Sylwadau:**

Byddem yn cytuno

## Sylwadau Ychwanegol

| **C9.** | Rydym wedi gofyn amryw o gwestiynau, ond a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech chi eu codi yn y maes hwn? |
|---|---|

**Sylwadau:**

Rydym yn rhannol wedi codi'r mater o ariannu ar gyfer dyletswydd statudol ychwanegol yn ein hymatebion i'r cwestiynau uchod. Er bod yr ATA wedi datblygu'n fawr o ran ei ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr, mae wedi gwneud i hynny weithio drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â hi. Mae'r sefyllfa ariannol ar hyn o bryd ac yn wir mae'r rhagolygon yn golygu bod ymgymryd â chostau ar gyfer dyletswydd statudol ychwanegol yn eithriadol anodd ar adeg pan rydym ni fel Awdurdod yn ystyried cael gostyngiadau er mwyn cwtogi ar y costau tra hefyd yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol cyfredol. Byddem yn gofyn bod sgwrs lawn yn cael ei chynnal gyda'r ATAau ynghylch y costau manwl cyn gwneud unrhyw benderfyniadau'n ffurfiol am y cynnig hwn.

Byddem yn gofyn, oherwydd proffil uchel y cynnig hwn, fod cynllun cyfathrebu effeithiol yn cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru gan weithio gyda'r ATAau i hysbysu asiantaethau eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn o'r pwys mwyaf wrth reoli disgwyliadau'r rheini.

## Sut i ymateb

Dylech ddychwelyd eich sylwadau naill ai mewn e-bost neu drwy'r post i Lywodraeth Cymru erbyn 22 Rhagfyr 2016.

| E-bost |
| --- |
| Dychwelwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i:<br>fire@wales.gsi.gov.uk<br><br>(Cofiwch nodi '**Ymateb i Ymgynghoriad – Dyletswydd statudol ar FRAs i ymateb i argyfyngau llifogydd ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â dŵr'** yn y llinell pwnc). |

| Post |
| --- |
| Dychwelwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad at:<br>Lisa Walters<br>Y Gangen Gwasanaethau Tân<br>Llywodraeth Cymru<br>Llawr Cyntaf, Gogledd<br>Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |

| Cyfrinachedd — Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad | |
| --- | --- |
| Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech chi i'ch ymateb ymddangos yn ddienw, nodwch hynny yma: | ☐ |